

Digimap for Schools

Ynys Fy Mreuddwydion

Paula Owens

Adnodd addysgu Daearyddiaeth Cyfnodau Allweddol 1-2



Dyma un o gyfres o adnoddau dysgu i'w defnyddio gyda Digimap for Schools. Cewch ragor o wybodaeth am y gwasanaeth hwn yn <http://digimapforschools.edina.ac.uk>

Digimap for Schools

<http://digimapforschools.edina.ac.uk>

Adnoddau Daeryddiaeth *Digimap for Schools*

Canllaw ar gyfer athrawon yw'r adnoddau hyn er mwyn rhoi gwybodaeth i'r dosbarth cyfan neu fyfyrwyr unigol yn uniongyrchol fel y bo'n briodol. Gallwch addasu'r llw o syniadau sydd ym mhob gweithgaredd fel eu bod yn gweddu eich dosbarth a'ch disgyblion. Mae rhai adnoddau'n cynnwys dalenni gwaith i'w rhoi i'r disgyblion yn uniongyrchol.

Teitl: Ynys Fy Mreuddwydion

Lefel	Cyd-destun	Lleoliad
Cyfnod Allweddol 2	Nodweddion dynol a ffisegol yr amgylchedd	Ynysoedd Mewnol Heledd, yr Alban, ond gellir ei addasu i ardaloedd eraill o arfordir Prydain Fawr.

Gwybodaeth	Defnyddio amrywiaeth o offer anodi: ychwanegu labeli a marcwyr; tynnu llinellau ac ardaloedd, newid lliwiau.
Cysylltiadau Cwricwlwm (Lloegr)	Defnyddio mapio digidol i ddod o hyd i nodweddion dynol a ffisegol, a'u disgrifio.
Cysylltiadau Cwricwlwm (Cymru)	Defnyddio mapiau, delweddau a TGCh i ddod o hyd i wybodaeth leoliadol a'i chyflwyno. Amlygu a disgrifio nodweddion naturiol a dynol.
Cwricwlwm Rhagoriaeth yr Alban	Canlyniadau Astudiaethau Cymdeithasol: Pobl, Lleuedd a'r Amgylchedd: 1-13a, 2-13a, 1-14a, 2-14a.

Gweithgaredd

Mae angen i ddisgyblion greu ynys newydd trwy dynnu ei lun ar fap, yna ei anodi i ddangos nodweddion dynol a ffisegol, gan gynnwys cysylltiadau trafndiaeth i'r tir mawr.

Cyflwyniad

Mae Ynysoedd Heledd yn cynnwys ynysfor eang neu glwstwr o ynysoedd oddi ar arfordir gogledd-orllewin yr Alban. Mae dau brif grŵp o ynysoedd: Ynysoedd Mewnol Heledd ac Ynysoedd Allanol Heledd. Lewis a Harris (sef un ynys hir gyda sarn gswllt gul) yw'r ynys fwyaf yn yr Alban, a'r trydedd fwyaf yn Ynysoedd Prydain, ar ôl Prydain Fawr ac Iwerddon. Mae'n rhaid i'r bobl sy'n byw ar yr ynysoedd hyn deithio i'r tir mawr naill ai ar gwch neu awyren.

Er bod y gweithgaredd hwn yn canolbwyntio ar greu ynys ddychmygol yn y rhanbarth hwn, gellid ei gyflawni unrhyw le ar ddyfroedd arfordirol Prydain Fawr. Mae gan *Digimap for Schools* yr offer i alluogi disgyblion i dynnu llun ac anodi eu hynys eu hunain a'i hintegreiddio ar fap.

Digimap for Schools

<http://digimapforschools.edina.ac.uk>

Prif weithgaredd

Esboniwch i'r dosbarth fod rhywbeth rhyfeddol wedi digwydd. Mae ynys newydd wedi cael ei darganfod yn Ynysoedd Heledd! Mae'n rhaid i chi fynd yno ar unwaith a mapio'r ynys newydd, gan ddangos sut le gallai fod yn y dyfodol yn eich barn chi. Mae angen cynnwys rhai aneddiadau, ffyrdd a nodweddion naturiol.

Nid oes neb yn gwybod llawer am yr ynys hon, heblaw ei bod hi'n gorwedd i'r de o Ynys Tیره ac i'r gorllewin o Ynys Iona yn Ynysoedd Mewnol Heledd.

Gallai disgyblion iau weithio mewn paruau. Gellir cadw mapiau a gweithio arnynt dros nifer o sesiynau fel prosiect.

Mae dwy daflen waith ychwanegol i gynorthwyo disgyblion gyda'r gweithgaredd hwn:

- *Nodweddion Fy Ynys*, i'w helpu nhw i benderfynu beth i'w roi ar eu hynys.
- *Taflen Gymorth Anodiadau*, sy'n ganllaw cyfeirio cyflym i'r offer y byddant yn eu defnyddio.

Mynd gam ymhellach

- Arddangoswch eich ynysoedd ac esboniwch pam y byddent yn lleoedd gwych i fyw. Penderfynwch pa nodweddion sy'n bwysig wrth ddewis lle da i fyw a phleidleiswch dros yr un gorau.

- Defnyddiwch eich mapiau i wneud modelau 3D o'ch ynys.

- Edrychwch ar rai llyfrau straeon am ynysoedd, er enghraifft:

Katie Morag and the Two Grandmothers – Mairi Hedderwick

The Little Island (Dell Picture Yearling) – Margaret Wise Brown a Leonard Weisgard

An Island Grows – Lola M Schaefer a Cathie Felstead

Dolenni ar y we

- Taith ar gwch o Skye www.bbc.co.uk/learningzone/clips/a-boat-trip-from-elgol-on-skye/6158.html
- Cyrraedd Ynysoedd Allanol Heledd ar gwch www.bbc.co.uk/learningzone/clips/the-isle-of-harris-outer-hebrides-getting-there/6160.html
- Symud o Lundain i Ynysoedd Allanol Heledd www.bbc.co.uk/learningzone/clips/moving-from-london-to-the-outer-hebrides/3211.html
- Y diwydiant pysgota yn Orkney www.bbc.co.uk/learningzone/clips/the-orkney-fishing-industry/8557.html
- Barnaby Bear yn ymweld ag Ynysoedd Orkney www.bbc.co.uk/learningzone/clips/a-visit-to-the-orkney-islands-pt-1-2/5436.html

Digimap for Schools

<http://digimapforschools.edina.ac.uk>

© EDINA ym Mhrifysgol Caeredin 2013

Mae'r gwaith hwn o dan Drwydded Anfasnachol *Creative Commons Attribution*



D10877_cynradd
f1.0 Awst 2013

EDINA

Digimap for Schools

<http://digimapforschools.edina.ac.uk>

Ynys Fy Mreuddwydion

1. Agorwch *Digimap for Schools* a dewch o hyd i 'Ynysoedd Mewnol Heledd' (Inner Hebridies) gan ddefnyddio'r bar chwilio. I ddod o hyd i Ynysoedd Tiree ac Iona, closiwch gan ddefnyddio'r bar graddfa a symud y map gan ddefnyddio'r saethau cyfeiriad. Dylai lefel 4 fod yn raddfa gyfforddus i weithio arni.
2. Mae'n rhaid i chi ddod o hyd i'r ynys a'i mapio. Yn gyntaf, mae angen i chi dynnu amlinelliad i ddangos ble mae'r ynys a pha siâp yw hi.

AWGRYM – Ceisiwch dynnu'r amlinelliad â llaw ar ddarn o bapur yn gyntaf, fel eich bod chi'n gwybod pa siâp rydych chi eisiau iddi fod.

Agorwch y *Annotation Toolbar* (bar offer anodi) a dewis '*Draw Line*' (tynnu llun llinell). Dewiswch y lliw amlinellu rydych chi eisiau yn gyntaf. Cliciwch i ddechrau tynnu'r llinell a dal yr allwedd *Shift* i lawr, a fydd yn caniatáu i chi dynnu llun llawrydd. Gwnewch yn siwr bod yr ynys yn ddigon mawr i chi ychwanegu nodweddion a labeli nes ymlaen.

3. Ystyriwch pa nodweddion a allai fod yno eisoes, pa nodweddion allai ddatblygu dros amser, a pha nodweddion a allai gael eu hadeiladu. Mae angen i chi ystyried sut bydd pobl yn cyrraedd yr ynys hefyd. Dewch o hyd i'r ynys agosaf sydd â chroesfannau fferi, a mapiwch lwybr o'r ynys honno i'ch ynys chi. Efallai yr hoffech ychwanegu maes awyr hefyd.



AWGRYM - defnyddiwch y daflen waith, '*Nodweddion Fy Ynys*', i ystyried hyn i ddechrau a llunio rhestr. Gallech eu braslunio ar eich llun o'ch ynys i'ch helpu chi i gynllunio a chael syniadau o allwedd y map.

Os byddwch yn gwneud camgymeriad, cofiwch y gallwch glicio a dileu nodweddion unigol neu eu symud nhw gan ddefnyddio'r offer yn adran '*Modify*' (addasu) y bar offer. Os byddwch yn gweithio ar eich map am gryn dipyn o amser, efallai y byddwch eisiau ei gadw fel na fyddwch yn ei gollu. Gallwch agor y map eto yn ddiweddarach.

4. Byddwch yn gorfod rhoi enw i'ch ynys hefyd, a labelu lleoedd eraill. Agorwch y bar offer anodi a dewis maint, ffont a lliw testun, a dewis '*Place label*' (gosod label). Bydd angen maint ffont mwy ar gyfer enw'r ynys na nodweddion yr ynys, er enghraifft, ffont *Arial* maint 26 ac 18. Cliciwch y tu allan i'ch ynys ac ysgrifennwch enw'ch ynys. Nesaf, dewiswch destun llai, a chliciwch nesaf at y nodweddion rydych chi eisiau eu henwi, fel trefi ac ysgol. Defnyddiwch '*Sch*' i labelu'r ysgol. Ar ôl i chi offen creu labeli, gallwch eu symud i'r safleoedd gorau trwy ddewis '*Move*' (symud) o adran '*Modify*' (addasu) yr *Annotation toolbar* (bar offer anodi). Pan fyddwch yn hapus â'ch map, mae angen i chi ei gadw a gwneud yn siwr bod ganddo deitl. Argraffwch y map ar ffurf ffeil pdf. Penderfynwch ai fformat portread neu dirlun fyddai orau.

Enw _____

Digimap for Schools

<http://digimapforschools.edina.ac.uk>

Taflen waith: Nodweddion Fy Ynys

Pa rai o'r nodweddion hyn fydd ar eich ynys? Sut byddan nhw'n ymddangos ar eich map?

Nodwedd	Sut bydd hwn yn ymddangos ar y map? Mae rhai syniadau ar goll, allwch chi eu hychwanegu?	Tynnwch lun o sut bydd y nodwedd hon yn ymddangos, gan ddefnyddio ysgrifbinnau lliw
Tref	<i>Tynnu llun cylch, dewis lliw amlinellu du a lliw llenwi melyn.</i>	
Pentref		
Prif ffordd	<i>Ychwanegu llinell, dewis lliw amlinellu coch.</i>	
Llwybr	<i>Ychwanegu llinell, dewis lliw amlinellu brown.</i>	
Ysgol	<i>Gosod label, ysgrifennu 'Sch'.</i>	
Porthladd fferïau		
Traeth: tywod neu raean bras	<i>Tynnu llun ardal siâp ffurf rydd, dewis lliw amlinellu melyn a lliw llenwi melyn.</i>	
Coedwig a choed	<i>Tynnu llun ardal siâp ffurf rydd, dewis lliw amlinellu a lliw llenwi gwyrdd a thryloywder 50%. Ychwanegu marciwr, dewis eicon coeden.</i>	
Mynydd	<i>Ychwanegu marciwr, dewis trionglau brown.</i>	
Afon	<i>Ychwanegu llinell, dewis lliw amlinellu glas.</i>	
Llyn	<i>Tynnu llun ardal siâp ffurf rydd, dewis lliw amlinellu a lliw llenwi glas.</i>	
Ardal o harddwch	<i>Gosod marciwr, dewis seren.</i>	
Llwybr fferi i'r ynys	<i>Ychwanegu llinell, dewis llinell doredig, denau, dewis lliw amlinellu glas.</i>	

Enw fy Ynys _____


Trefi _____


Digimap for Schools


<http://digimapforschools.edina.ac.uk>


Taflen Gymorth Anodiadau:


Y Prif Far Offer





Symud anodiad 

Tynnu llinellau 

Ychwanegu lliw 

Ychwanegu marcïwr 

Tynnu llun siâp 

Tynnu llun ardal 

Dewis tryloywder 